

PWYLLGOR :	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD :	4 Tachwedd 2024
TEITL :	Cofrestr Buddiannau Aelodau
AWDUR :	Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau
GWEITHREDU :	Er gwybodaeth ac i gynnig unrhyw sylwadau ar y trefniadau

Cefndir

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor fel rhan o'i waith o fonitro safonau o fewn y Cyngor ac yn unol â'i raglen waith.

Cofrestr Buddiannau Aelodau Cyngor Gwynedd

2. Dywed y Cod Ymddygiad i Aelodau bod raid i aelodau (yn cynnwys aelodau cyfetholedig â phleidlais) ddatgelu ar lafar gerbron unrhyw gyfarfod y maent ynnddo, fodolaeth a natur unrhyw fuddiant personol sydd ganddynt mewn busnes sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod. Dywed ymhellach bod rhaid cofrestru'r buddiant hwnnw drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro.

3. Mae'r Côt Ymddygiad hefyd yn dweud bod yn rhaid i aelodau, o fewn 28 diwrnod ar ôl cael eu hethol neu eu penodi, gofrestru eu buddiannau personol drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro. Rhaid hefyd ddarparu hysbysiad o unrhyw newid i'r buddiannau rheini ac o fodolaeth unrhyw fuddiannau newydd, o fewn 28 diwrnod o ddot yn ymwybodol ohonynt.

4. Er mwyn cynorthwyo aelodau i gadw at ofynion y Côt Ymddygiad, mae'r Cyngor wedi darparu dwy ffurflen, un sydd yn addas ar gyfer y cofrestru ymlaen llaw a'r llall ar gyfer cofrestru datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd. Mae'r datganiadau a wneir ar y ddwy ffurflen yn ffurfio'r gofrestr fuddiannau. Atodir copïau o'r ffurflenni hyn fel **Atodiadau 1 a 2**.

5. Mae dyletswydd statudol ar y Swyddog Monitro i sefydlu a chadw'r gofrestr fuddiannau. Mae hon yn ddogfen gyhoeddus ac mae'n rhaid iddi fod ar gael yn un o swyddfeydd yr awdurdod i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar unrhyw adeg resymol. Hefyd mae'n rhaid iddi gael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Yn achos y cyngor hwn cedwir y gofrestr bapur yn y pencadlys yng Nghaernarfon neu gellir gweld datganiadau pob aelod drwy eu tudalennau personol ar y wefan. Bydd y datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd hefyd i'w gweld yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw.

Atgoffa Aelodau

6. Fel nodir uchod, cyfrifoldeb aelodau yw hysbysu'r Swyddog Monitro o unrhyw newid i'r buddiannau sydd wedi eu cofrestru ac o fodolaeth unrhyw fuddiant newydd. I'w cynorthwyo

i wneud hyn bwriedir sefydlu trefn o atgoffa aelodau'n flynyddol. Byddai hyn yn golygu e-bostio'r holl aelodau gan ofyn iddynt ystyried eu datganiadau cyfredol, sydd i'w gweld ar eu tudalennau personol ar y wefan, a'n hysbysu o unrhyw newid sydd angen ei wneud fel y gallwn ddiweddarau'r gofrestr.

Cofrestru Buddiant mewn Cyfarfod

7. Pan fydd aelod yn datgan mewn cyfarfod bydd swyddog gwasanaethau democrataidd yn rhoi ffurflen iddo/i i'w chwblhau ac yn ei chasglu ar ddiwedd y cyfarfod. Mae dosbarthu ffurflenni cofrestru i aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd yn rhithiol, ac yna sicrhau eu bod yn cael eu dychwelyd wedi golygu cryn dipyn mwy o waith i swyddogion gwasanaethau democrataidd. Mae eu dychwelyd drwy'r post, drwy law neu drwy sganio ac e-bostio yn fwy trafferthus i'r aelodau hefyd. Rydym felly yn y broses o ddatblygu proses o gofrestru ar-lein gan ddefnyddio adnodd Microsoft Forms. Bydd hyn yn golygu y gall swyddog anfon e-bost yn cynnwys dolen i ffurflen ar-lein at aelod yn ystod y cyfarfod. Yr unig beth fydd angen i'r aelod wneud wedyn fydd cwblhau'r ffurflen ar-lein.

Cynghorau Cymuned

8. Mae'r darpariaethau statudol uchod hefyd yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned ond gyda'r gwahaniaethau canlynol:

- Nid oes rheidrwydd ar aelodau i gofrestru buddiannau ymlaen llaw.
- Clerc y cyngor, yn hytrach na'r Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sefydlu a chadw'r gofrestr a derbyn hysbysiadau o fuddiannau.

9. Rydym wedi darparu copïau o ffurflenni Cyngor Gwynedd i'r cynghorau fel y gallant eu defnyddio fel templed pe dymument. Tra nad oes rheidrwydd ar aelodau i gofrestru buddiannau ymlaen llaw, rydym yn hybu hyn fel arfer da i gynghorau tref a chymuned.

Argymhelliad

10. Gofynnir i'r Pwyllgor

(a) Dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad

(b) Gynnig unrhyw sylwadau ar gamau y gellid eu cymryd mewn perthynas â chofrestru buddiannau